# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 17 Mai 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Arolwg Dyrannu Adnoddau'r NHS

**C4 Elin Jones:** A wnaiff Jane Hutt wneud datganiad byr ar hynt arolwg dyrannu adnoddau'r NHS? (OAQ5069)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae'r Athro Peter Townsend wedi'i benodi'n gadeirydd annibynnol y grŵp llywio cenedlaethol a fydd yn goruchwylio'r arolwg o'r trefniadau cyfredol i ddyrannu adnoddau ariannol i'r NHS yng Nghymru. Bydd yn cyflwyno adroddiad rhagarweiniol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn diwedd 2000. Disgwylir adroddiad terfynol y grrŵp erbyn mis Mawrth 2001. Cynhelir cyfarfod cyntaf y grrŵp ar 26 Mai 2000.

### Adolygu Cyfleusterau Gofal ar gyfer Cleifion Oedrannus

**C5 Ieuan Wyn Jones:** A oes gan Jane Hutt unrhyw gynlluniau i gynnal arolwg o'r cyfleusterau gofal ar gyfer cleifion oedrannus y mae arnynt angen adferiad? (OAQ5101)

**Jane Hutt:** Bydd y Comisiwn Archwilio yn cyhoeddi adroddiad ar wasanaethau adferiad i bobl oedrannus. Byddwn yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r argymhellion pan gyhoeddir hwy, yng nghyd-destun y fframwaith gwasanaethau cenedlaethol i bobl hŷn, prosiect y strategaeth gorfforaethol a chynlluniau eraill sydd ar y gweill yng Nghymru ar hyn o bryd.

### Cau Adain Orllewinol Ysbyty Brenhinol Caerdydd

**C6 Jenny Randerson:** A yw Jane Hutt wedi cael trafodaethau gyda'r awdurdodau perthnasol am y gwelyau a gollir o ganlyniad i gau adain orllewinol Ysbyty Brenhinol Caerdydd? (OAQ4968)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro nac Awdurdod Iechyd Bro Taf ynglŷn â chau adain orllewinol Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Deallaf fod yr ymddiriedolaeth yn y broses ar hyn o bryd o ddatblygu strategaeth gwasanaethau clinigol a bod Awdurdod Iechyd Bro Taf yn gweithio gyda grŵp iechyd lleol Caerdydd i ddatblygu strategaeth ar gyfer gwasanaethau yn nwyrain Caerdydd, gan gynnwys ystyried rôl yr adain orllewinol yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Byddai unrhyw gynigion i ddeillio o hynny sydd yn golygu newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau yn ddarostyngedig i gyfnod o ymgynghori cyhoeddus ffurfiol.

### Datblygu Rôl yr Ymwelydd Iechyd yng Nghymru

**C7 Pauline Jarman:** Sut y mae Jane Hutt yn bwriadu datblygu rôl yr ymwelydd iechyd yng Nghymru? (OAQ5077)

**Jane Hutt:** Mae gwaith ymwelwyr iechyd yn destun arolwg ar hyn o bryd a cheir adroddiad i law yn fuan. Mae'r arolwg o'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd a'r gwasanaeth iechyd ysgolion yn rhan o'r rhaglen waith o dan 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru'. Prifysgol Cymru, Abertawe, sydd yn ymgymryd â'r gwaith o dan arweiniad yr Athro y Fonesig June Clark. Gwneir penderfyniadau ar rôl yr ymwelydd iechyd yng Nghymru yng ngoleuni'r wybodaeth o adroddiad yr arolwg.

### Adnabod a Thrin Diffyg Maeth yng Nghymunedau Cymru

**C8 Mick Bates:** A oes canllawiau'n bod ar gyfer adnabod, trin a rheoli diffyg maeth yn y gymuned yng Nghymru? (OAQ4989)

**Jane Hutt:** Oes, mae Canolfan Adnoddau Meddyginiaethau Cymru wedi rhoi canllawiau i feddygon teulu, fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yng Nghymru.

### Strategaeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau

**C9 Nick Bourne:** Pa gamau a gymer Jane Hutt i sicrhau bod y pum tîm gweithredu alcohol a chyffuriau yng Nghymru yn cyflawni'r amcanion a ddisgrifir yn strategaeth adolygedig Cymru ar gamddefnyddio sylweddau? (OAQ5144)

**Jane Hutt:** Byddaf yn lansio strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru ar ei newydd wedd, o dan y teitl 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth' ar 25 Mai. Mae i'r strategaeth newydd bedwar nod ac amcan sylweddol sydd yn ymgorffori nodau ac amcanion strategaeth ymladd cyffuriau'r DU, 'Tackling Drugs to Build a Better Britain'. Bydd hynt y strategaeth drwyddi draw yn cael ei fonitro a'i arfarnu yn erbyn strategaeth y DU, ochr yn ochr ag amcanion sydd yn berthnasol i Gymru. Un elfen allweddol yn y broses o fesur cynnydd fydd y cynlluniau a'r adroddiadau blynyddol gan y timau gweithredu ym maes alcohol a chyffuriau yng Nghymru. Bydd y rhain yn cynnwys casglu gwybodaeth am y cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn targedau'r strategaeth. Yn ychwanegol at y cylch cenedlaethol hwn o gynllunio a chyflwyno adroddiadau, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y timau gweithredu ym maes alcohol a chyffuriau a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i ganiatáu adborth ar y cynnydd a wnaethpwyd ac i gyfnewid barn a phrofiad.

### Mynd i'r Afael â Chlefyd y Galon yng Nghymru

**C10 Michael German:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i fynd i'r afael â'r ffaith bod cymaint o glefyd y galon yng Nghymru? (OAQ5080)

**Jane Hutt:** Mae mynd i'r afael â chlefyd y galon yn flaenoriaeth bennaf i'r Cynulliad a'r NHS. Fe gofiwch o'r ddadl ar glefyd y galon yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth fod grŵp llywio eisoes wedi'i sefydlu i roi'r safonau a gynhwyswyd yn y fframwaith gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer clefyd y galon ar waith. Mae'r grŵp hwn yn datblygu cynllun gweithredu, a gynllunnir fel ei fod yn gweddu i anghenion cleifion Cymru, i wella'r gwasanaethau cardiaidd dros y 10 mlynedd nesaf a bydd yn rhoi i'r Cynulliad ymateb strategol er mwyn mynd i'r afael â'r clefyd difrifol hwn.

Yn gyfochrog â hynny, mae Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi argymell yr angen am fuddsoddiad sylweddol i wella gwasanaethau cardiaidd arbenigol. Yr wyf, felly, eisoes wedi darparu £1.5 miliwn ychwanegol fel cam cyntaf i helpu i liniaru'r pwysau gwaethaf yn 2000-01. Yn ychwanegol, yr wyf y bore yma wedi trafod ein blaenoriaethau ar gyfer y £51 miliwn sydd yn weddill o'r £86 miliwn ychwanegol a oedd ar gael i wasanaethau iechyd yng Nghymru yn dilyn y gyllideb. Fel blaenoriaeth allweddol, dylai gwasanaethau cardiaidd elwa o fuddsoddiad y tu hwnt i'r £1.5 miliwn yr wyf eisoes wedi'i gyhoeddi.

### Rhoi Polisi Iaith Gymraeg ar Waith (Awdurdod Iechyd Gwent)

**C11 David Davies:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar wariant Awdurdod Iechyd Gwent ar roi polisi iaith Gymraeg ar waith? (OAQ5087)

**Jane Hutt:** Cymeradwywyd cynllun iaith Gymraeg Awdurdod Iechyd Gwent gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 1998 a daeth i rym ym mis Ebrill 1998. Yr awdurdod iechyd sydd yn cwrdd â'r gwariant yn erbyn y cynllun hwn.

Cafodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ei deddfu gan y Senedd ar y ddealltwriaeth, lle bo cyrff cyhoeddus yn wynebu costau ychwanegol yn sgîl rhoi eu cynlluniau iaith Gymraeg ar waith, y byddid yn cwrdd â'r costau hynny oddi mewn i gyllidebau'r brif ffrwd.

**Ysgafnhau'r Baich ar Ysbytai NHS (Gofal Nyrsio Annibynnol)**

**C12 David Melding:** A yw Jane Hutt yn bwriadu defnyddio nyrsys o'r sector annibynnol i ysgafnhau baich ysbytai'r NHS? (OAQ5095)

**Jane Hutt:** Mae grŵp datblygu'r strategaeth amserau aros a'r tasglu pwysau brys yn ystyried ystod o opsiynau ar gyfer delio â phwysau ar y gwasanaeth. Maent yn cynnwys fel rhan o'u trafodaethau ystod eang o bosibiliadau, rhai ohonynt yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda'r sectorau gwirfoddol, annibynnol a phreifat. Bydd y ddau grŵp yn cyflwyno'u hadroddiad yn yr haf.

**Cyhoeddi Safonau Gofal yr Oedrannus a'r Anabl o fewn yr NHS**

**C13 Cynog Dafis:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau i gyhoeddi'r safonau gofal a ddisgwylir wrth drin yr oedrannus a'r anabl o fewn yr NHS yng Nghymru? (OAQ5078)

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau'r safonau gofal uchaf i bawb. Y Comisiwn Gwella Iechyd sydd yn gyfrifol am fonitro a gwella safonau yn yr NHS.

Mae fframwaith gwasanaethau cenedlaethol i bobl hŷn hefyd yn cael ei ddatblygu gan y Llywodraeth, gyda'r nod o wella ansawdd a lleihau'r amrywiadau annerbyniol mewn gofal. Bydd yn pennu safonau a arolygir wedyn gan y Comisiwn Gwella Iechyd ar ffurf arolwg gwasanaeth. Bydd y safonau hynny'n cael eu harddel yng Nghymru os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo hynny.

Er bod fframwaith gwasanaethau cenedlaethol yn cael ei ddatblygu gan yr Adran Iechyd, mae yna gynrychiolaeth gref o Gymru ar y grwpiau gorchwyl ac mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad agos â'r Adran Iechyd. Rhagwelir y caiff fersiwn Cymreig ei lunio a fydd, tra'n cadw at y safonau, yn caniatáu amrywiadau rhwng y ddwy wlad o ran darparu gwasanaethau.

**Rhoi Dewis i Bobl ag Anableddau Dysgu**

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd Jane Hutt yn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael dewis y ddarpariaeth a roddir iddynt, yn enwedig o safbwynt gofal preswyl? (OAQ5100)

**Jane Hutt:** Mae strategaeth anableddau dysgu'r Cynulliad eisoes yn hyrwyddo dewis ac am i'r unigolyn allu dweud beth a fyddai'n well ganddo o ran y gwasanaethau neu'r gefnogaeth a ddarperir. Yn y pen draw, mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu pethau, gan gymryd eu cyfrifoldebau, yr anghenion a ddynodwyd, barn yr unigolyn a'r hyn y mae ef neu hi yn ei ffafrio, barn cynhalwyr o fewn y teulu, canllawiau perthnasol ac ystyriaethau gwerth gorau i ystyriaeth.

**Cyflwyniadau i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

**C15 Cynog Dafis:** A yw Jane Hutt wedi gwneud unrhyw gyflwyniadau ar ran y Cynulliad i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol? (OAQ5112)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cyfarwyddo'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol i gymryd blaenoriaethau gofal iechyd y Cynulliad fel y'u gwelir yn 'Gwellcymru.com' i ystyriaeth a gosod ei raglen waith gyfredol. Rhoddwyd cyngor ynglŷn â chynigion adolygu, canllawiau drafft a gwerthusiadau amodol sydd yn cael eu cynnal yn annibynnol gan y sefydliad, yn enwedig lle mae'r rhain yn cynnig sylfaen addas ar gyfer canllawiau i NHS Cymru.

**Nodau Recriwtio ar gyfer y Proffesiwn Nyrsio**

**C16 Brian Hancock:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar ei nodau recriwtio ar gyfer y proffesiwn nyrsio yng Nghymru? (OAQ5075)

**Jane Hutt:** Mae prinder nyrsys mewn rhai ymddiriedolaethau yng Nghymru ac mewn meysydd arbenigol, ac mae'r Cynulliad yn rhoi sylw i'r prinderau hyn. Ar hyn o bryd mae cyfradd y swyddi gwag yn 3.9 y cant, sydd yn cyfateb i oddeutu 750 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Lle mae ymddiriedolaethau gyda mwy o swyddi gwag na'r cyfartaledd, yr ydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda hwy a'r cyrff proffesiynol i sefydlu atebion lleol i broblemau lleol.

Mae'r recriwtio i mewn i'r proffesiwn yn gryf iawn gyda thua wyth yn ymgeisio am bob lle i fyfyriwr. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion nyrsio restrau aros. Byddwn yn parhau i gomisiynu lleoedd hyfforddi wedi'u seilio ar broffwydoliaethau'r gweithlu. Yn ogystal, yr ydym yn ystyried defnyddio rhywfaint o gyllid ychwanegol i gynyddu nifer y lleoedd er mwyn cwrdd â'r galw a ragwelir i'r dyfodol o du'r ymddiriedolaethau.

**Cynyddu'r Nifer o Leoedd Hyfforddi Nyrsys**

**C17 Janet Davies:** A oes gan Jane Hutt unrhyw gynlluniau i gynyddu'r nifer o leoedd hyfforddi nyrsys? (OAQ5104)

**Jane Hutt:** Byddwn yn parhau i gomisiynu lleoedd hyfforddi wedi'u seilio ar broffwydoliaethau'r gweithlu. Mae'r recriwtio i mewn i'r proffesiwn yn gryf, gyda thua wyth yn ymgeisio am bob lle i fyfyriwr. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion nyrsio restrau aros. Yr ydym hefyd yn ystyried defnyddio rhywfaint o gyllid ychwanegol i gynyddu nifer y lleoedd er mwyn cwrdd â'r galw a ragwelir i'r dyfodol o du'r ymddiriedolaethau.

**Datrys y Broblem Blocio Gwelyau (Cartrefi Nyrsio Preifat)**

**C18 Glyn Davies:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar y posibilrwydd o ddefnyddio cartrefi nyrsio preifat i ddatrys y broblem blocio gwelyau? (OAQ5111)

**Jane Hutt:** Mae rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn faes y mae angen ymdrin ag ef gyda gofal neilltuol. Mae'n hanfodol fod anghenion unigol cleifion yn cael eu hasesu'n llawn cyn y gwneir unrhyw drefniadau rhyddhau, a bod y broses yn cael ei chynllunio'n ofalus ac mewn ymgynghoriad â'r unigolion, eu teuluoedd a'u cynhalwyr.

Mae'r tasglu pwysau brys yn ystyried ystod o faterion sydd yn ymwneud â'r baich ar y gwasanaeth iechyd, gan gynnwys yr oedi cyn rhyddhau cleifion. Mae hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth â'r sectorau gwirfoddol, annibynnol a phreifat. Bydd y tasglu yn cyflwyno'i adroddiad yn yr haf a byddwn yn awgrymu ffyrdd ymlaen i'r Cynulliad.

**Swyddogion Adferiad ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg**

**C19 Rhodri Glyn Thomas:** Sawl swyddog adferiad ar gyfer pobl â nam ar eu golwg sydd yn gweithio yng Nghymru? (OAQ5068)

**Jane Hutt:** Ni chesglir yr wybodaeth hon yn ganolog. Fodd bynnag, deallaf fod Cyngor Cymru i'r Deillion wedi cynhyrchu ffigurau sydd yn dangos bod awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol lleol sydd yn ymwneud â phobl â nam ar eu golwg yng Nghymru yn cyflogi'r hyn sydd yn cyfateb i 23.5 o swyddi swyddogion adferiad amser llawn.

### Arian Ychwanegol ar gyfer Mentrau Iechyd Newydd

**C20 Karen Sinclair:** Faint o arian ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i Gymru ar gyfer mentrau iechyd newydd? (OAQ24973)

**Jane Hutt:** Yr oedd dyfarniad mis Ebrill i'r awdurdodau iechyd yn £2.4 biliwn—cynnydd o £196 miliwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar 12 Mai, cyhoeddais gynnydd ychwanegol o £35 miliwn ar gyfer gwaith cydgysylltiedig i ysgafnhau'r baich brys a chwtogi amserau a rhestrau aros. Yr wyf yn trafod blaenoriaethau ar gyfer cyllido mwy o gynlluniau gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Gofal Iechyd ar gyfer Ffoaduriaid

**C21 Janet Davies:** A wnaiff Jane Hutt wneud datganiad ynghylch gofal iechyd ar gyfer ffoaduriaid yng Nghymru? (OAQ5103)

**Jane Hutt:** Bydd ceiswyr nodded sydd yn cyrraedd Cymru yn gallu manteisio ar yr un gwasanaethau NHS ag unrhyw aelod arall o'r boblogaeth. Rhagwelwn y bydd gan y grŵp hwn o bobl rai anghenion iechyd neilltuol, er enghraifft, o safbwynt sgrinio a gwasanaethau iechyd meddwl, ond mae'n anodd mesur hynny ar hyn o bryd. Yr ydym wedi dynodi cyllid ychwanegol y gellir ei ddyrannu i'r diben hwn a byddwn yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa.

### Ysbyty Cymunedol Newydd (Y Rhondda)

**C22 Geraint Davies:** A yw Jane Hutt wedi derbyn unrhyw gyflwyniadau'n ddiweddar ynglŷn â'r angen am ysbyty cymunedol newydd i'r Rhondda? (OAQ5085)

**Jane Hutt:** Cafwyd cyflwyniadau o blaid prynu safle er mwyn datblygu gwasanaethau ar gyfer y gymuned leol. Yr wyf yn ymwybodol o'r pwysigrwydd a rydd y boblogaeth leol i hyn. Mae Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a'r Rhondda ac Awdurdod Iechyd Bro Taf wrthi'n paratoi cynllun busnes ar gyfer y cynllun hwn.

### Ailgartrefu Pobl ag Anableddau Dysgu yn y Gymuned

**C23 Michael German:** Pa gynnydd a wnaethpwyd yn ddiweddar o ran ailgartrefu pobl ag anableddau dysgu yn y gymuned yng Nghymru? (OAQ5081)

**Jane Hutt:** Caeodd Ysbyty Trelái ym mis Rhagfyr 1998 a chaewyd tri ysbyty arhosiad hir ym Mhowys i bobl ag anableddau dysgu yn 1997 a 1998. Y llynedd, ailgartrefwyd 45 o bobl o Ysbyty Hensol, Ysbyty Llanfrechfa Grange ac Ysbyty Dydd Bryn-y-Neuadd a deallaf y caiff 26 o bobl eu hailgartrefu eto o'r ysbytai hyn dros y 12 mis nesaf yn fras.

### Cyfnod Mamolaeth/Tadolaeth (Mabwysiadu)

**C24 Jane Davidson:** Pa gyfarwyddyd y bydd Jane Hutt yn ei roi i awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd ynglŷn â chyfnod mamolaeth/tadolaeth i rai sydd yn mabwysiadu? (OAQ5109)

**Jane Hutt:** Caiff canllawiau eu cyhoeddi'n fuan ar gyfer cyflogwyr NHS ar ddarparu cyfnod mamolaeth/tadolaeth yn dilyn geni neu fabwysiadu plentyn. Bydd hyn yn ychwanegol at y trefniadau presennol ar gyfer absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth. Bydd yn cadarnhau y dylai fod hawl i ddeg diwrnod o absenoldeb tadolaeth am bob genedigaeth ac y dylai hynny sefyll yn achos tadau biolegol a mabwysiol, cynhalwyr a enwir a phartneriaid o'r un rhyw.

**Cysylltiad rhwng Tai Gwael a Salwch**

**C25 Richard Edwards:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar y cysylltiad rhwng tai gwael a salwch? (OAQ5094)

**Jane Hutt:** Mae tai digonol yn elfen holl bwysig er mewn cael gwell iechyd. Mae safonau'r tai sydd gennym yn barod yn bwysig ac felly hefyd yr angen am ddigon o dai o'r math iawn, yn y man iawn i fodloni'r galw.

Mae'r safon ffitrwydd bresennol wedi ei sefydlu er 1990 ac mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Byddai'r trefniadau newydd arfaethedig yn cyflwyno 'dosbarthiad ffitrwydd' a fyddai'n cydgysylltu cyflwr tai yn fwy agos gydag iechyd a diogelwch y sawl sydd yn byw yno. Bydd y dosbarthiad newydd hwn yn ein galluogi i wireddu ein cynigion yn 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru' i fynd i'r afael â thai gwael fel un o'r achosion sydd wrth wraidd iechyd gwael. Mae gwaith ar y safon newydd hon yn mynd rhagddo'n dda a chaiff ei gynnwys maes o law mewn deddfwriaeth sylfaenol.

**Gwella Gofal ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg**

**C26 Phil Williams:** A oes gan Jane Hutt strategaeth ar gyfer gwella'r gofal a gaiff pobl â nam ar eu golwg gan y gwasanaethau cymdeithasol? (OAQ5105)

**Jane Hutt:** Nid oes strategaeth i Gymru gyfan o ran y gofal a gaiff pobl â nam ar eu golwg gan y gwasanaethau cymdeithasol. Adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal eu poblogaeth, gan gadw mewn cof y dylid ymdrin â phob person yn unol â'u hanghenion unigol fel y'u haseswyd.

Yr ydym wedi ymrwymo i wella safonau gofal a chyflwyno gwasanaethau sydd yn ymateb yn well er budd pawb. Er mwyn cyflawni hyn, yr ydym yn symud agenda polisi sylweddol yn ei blaen gan gynnwys sefydlu arolygiaeth safonau gofal annibynnol newydd, cyngor gofal newydd i Gymru, datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd i'r gwasanaethau cymdeithasol a sicrhau gwell cydweithio rhwng iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Lleihau'r Nifer o Ddioddefwyr Strôc yng Nghymru**

**C27 Carwyn Jones:** Beth sydd yn cael ei wneud i leihau'r nifer o ddioddefwyr strôc yng Nghymru? (OAQ5083)

**Jane Hutt:** Mae'r ffactorau risg ar gyfer strôc yn cynnwys pwysedd gwaed uwch, ysmygu a bod yn rhy dew. Bydd y cynllun fframwaith gwasanaethau cenedlaethol i'r person hŷn sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn ymdrin yn uniongyrchol â strôc. Bydd y cynlluniau fframwaith gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer clefyd y galon a chlefyd siwgr hefyd yn berthnasol er atal strôc. Buddsoddwyd tua £1 miliwn mewn cynlluniau i atal ysmygu a chael pobl i roi'r gorau iddi yng Nghymru y llynedd, a bydd hyn yn codi i £1.75 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

### Triniaeth ME ar gyfer Dioddefwyr Ifanc

**C28 Lorraine Barrett:** A wnaiff Jane Hutt wneud datganiad ar yr arferion gorau yng Nghymru ar hyn o bryd wrth drin dioddefwyr ME ifanc? (OAQ5097)

**Jane Hutt:** Mae'r Adran Iechyd wedi sefydlu gweithgor i edrych ar ME/syndrom blinder cronig. Mae'r grŵp am adolygu'r gwaith rheoli a'r arferion ym maes ME/syndrom blinder cronig gyda'r nod o wella safonau drwy ddarparu canllawiau arferion gorau i weithwyr proffesiynol, cleifion a chynhalwyr. Mae'r gweithgor hefyd yn edrych ar faterion sydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad agos â'r Adran Iechyd ar hyn.

### Rhoi Terfyn ar Flocio Gwelyau mewn Ysbytai

**C29 Nick Bourne:** Pa fesurau y mae Jane Hutt wedi eu trafod gyda'i chydweithwyr yn San Steffan er mwyn rhoi terfyn ar yr arfer o flocio gwelyau mewn ysbytai? (OAQ5143)

**Jane Hutt:** Yn ychwanegol at y ffaith fod y Cynulliad yn rhannu'r arferion gorau gyda gweinyddiaethau iechyd eraill ar draws y DU, mae'r tasglu pwysau brys yn ystyried ystod o opsiynau er delio â phwysau ar y gwasanaeth, a fyddai'n golygu gweithio'n fwy agos gyda'r sectorau gwirfoddol, annibynnol a phreifat. Bydd y tasglu yn cyflwyno'i adroddiad yn yr haf.

### Ysbyty Plant i Gymru

**C30 David Melding:** A yw Jane Hutt yn cefnogi'r ddadl dros adeiladu ysbyty i blant yng Nghymru? (OAQ5096)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd strategol y cynllun cyffredinol i ddarparu'r cyfleusterau gwasanaethau aciwt diweddaraf posibl i blant yn Ysbyty Prifysgol Cymru ac mae wedi cymeradwyo'r prosiect cyfredol i ddarparu lle a godwyd yn bwrpasol ar gyfer y gwasanaethau plant sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau anfoddhaol yn yr ysbyty hwnnw ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro ac Awdurdod Iechyd Bro Taf i lunio cynigion pellach yng nghyd-destun yr hyn a fydd yn gorfod bod yn fframwaith ariannol cynaliadwy.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

### Annog y Sector Preifat i Fuddsoddi mewn Hyfforddiant

**C5 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i annog y sector preifat i fuddsoddi yn y system ddiwygiedig ar gyfer darparu hyfforddiant yng Nghymru? (OAQ5117)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Mae'r sector preifat yn bartner allweddol ar hyn o bryd yn y gwaith o gyflwyno hyfforddiant sgiliau, a bydd hynny'n parhau ar ôl sefydlu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru. Disgwyliaf i Gyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru annog y sector preifat i barhau i chwarae rôl weithredol.

### Hybu Chwaraeon yng Nghaerdydd a Chanol De Cymru

**C6 Jonathan Morgan:** Pa gamau y mae Tom Middlehurst yn eu cymryd i hybu digwyddiadau sydd yn ymwneud â chwaraeon yng Nghaerdydd a Chanol De Cymru? (OAQ5137)

**Tom Middlehurst:** Yr wyf yn awyddus i sicrhau bod pob digwyddiad chwaraeon a diwylliannol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus ledled Cymru er mwyn annog cynifer â phosibl o bobl i gymryd rhan a

mwynhau digwyddiadau o’r fath. Fodd bynnag, mater yn bennaf i gyrff llywodraethol y campau unigol yw hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae cyrff llywodraethol yn cynnal digwyddiadau ledled Cymru gyda chefnogaeth o du Cyngor Chwaraeon Cymru.

Am fod gan y Cynulliad gyfrifoldeb dros chwaraeon a thwristiaeth, yr ydym mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y cyrff nawdd sydd yn gyfrifol am y materion hynny, Cyngor Chwaraeon Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, yn gweithio’n agos gyda’i gilydd. Mae llythyr canllawiau strategol y Cynulliad at Fwrdd Croeso Cymru eleni yn gofyn iddynt baratoi calendr blynyddol o ddigwyddiadau ledled Cymru fel y gallant fanteisio arnynt, mewn ymgynghoriad â’r Cyngor Chwaraeon, yn eu gwaith hyrwyddo.

### Hybu Artistiaid o Gymru

**C7 Peter Rogers:** A wnaiff Tom Middlehurst gefnogi rhaglen ryng-genedlaethol a rhyngwladol i roi mwy o sylw a chydnabyddiaeth i artistiaid o Gymru y pedair canrif ddiwethaf? (OAQ4975)

**Tom Middlehurst:** Yr wyf eisoes yn gwneud hynny, drwy fy nghefnogaeth a’r cyllid a roddir i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn cynnal arddangosfa ar hyn o bryd o dan yr enw ‘Celfyddyd yng Nghymru—Peintio’r Ddraig’, sydd yn mynd law yn llaw â chyfres deledu BBC1 Cymru. Mae’r arddangosfa yn edrych ar hanes celfyddyd yng Nghymru o’r ddeunawfed ganrif i’r presennol gan gyflwyno llu o enghreifftiau o beintiadau gan artistiaid hanesyddol o Gymru ac artistiaid sydd yn fyw ar hyn o bryd.

Mae gan yr Amgueddfa Genedlaethol hefyd bolisi o roi benthyg gweithiau celf, gan gynnwys gwaith gan artistiaid Cymreig, ar gyfer arddangosfeydd yn y DU a thramor. Mae oriel Celfyddyd yng Nghymru yr Amgueddfa Genedlaethol yn darparu gofod arddangos ar gyfer arddangosfeydd gan artistiaid cyfoes.

Yn 1997 lluniodd Cyngor Celfyddydau Cymru a’r Cyngor Prydeinig bartneriaeth o dan yr enw ‘Celfyddydau Cymru Rhyngwladol’, sydd yn hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid cyfoes o Gymru i farchnad ryngwladol.

### Dyledion Myfyrwyr

**C8 Jenny Randerson:** A yw Tom Middlehurst wedi cynnal trafodaethau â’r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth ynghylch effaith cynyddu dyledion myfyrwyr ar bobl ifanc yng Nghymru ac ar eu teuluoedd? (OAQ4967)

**Tom Middlehurst:** Nac ydwyf. Mater i’r Adran Addysg a Chyflogaeth yw cefnogaeth i fyfyrwyr ac nid yw wedi’i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r Adran Addysg a Chyflogaeth yn monitro effaith y trefniadau newydd i gefnogi myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr.

Byddaf yn parhau i ddarparu cyllid mynediad ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru fel y gallant gynnig help dewisol, yn ôl eu doethineb, i fyfyrwyr sydd yn wynebu anawsterau ariannol tra’n astudio, na fyddent o bosibl fel arall yn gallu ymgymryd â’r cwrs yn y lle cyntaf am resymau ariannol. Mae swm y cronfeydd mynediad ar gyfer addysg uwch yng Nghymru wedi cynyddu’n sylweddol dros y blynyddoedd. Ar gyfer 2000-01, mae £3.825m ar gael i gynorthwyo myfyrwyr addysg uwch sydd mewn caledi ariannol, yn ogystal â £949,000 ychwanegol a drosglwyddwyd o’r Adran Addysg a Chyflogaeth i gyllido’r bwrsariaethau addysg uwch newydd ar gyfer myfyrwyr aeddfed yng Nghymru.

### Cyllid ar gyfer Theatrau

**C9 Christine Humphreys:** Pa ganran o'r bobl sydd yn cloriannu'r ceisiadau i Gyngor Celfyddydau Cymru am gyllid refeniw ar gyfer theatrau sydd yn dod o ogledd Cymru? (OAQ5141) [R]

**Tom Middlehurst:** Mae pob penderfyniad ar grantiau refeniw i gleientiaid sydd yn cael eu cyllido ar sail reolaidd, gan gynnwys theatrau, yn cael ei wneud yng nghyfarfodydd llawn Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae un aelod o'r Cyngor ar hyn o bryd yn byw yn yr Wyddgrug, gogledd Cymru. Yr wyf yn benderfynol o wella'r cydbwysedd daearyddol ar y Cyngor, a dyna pam y byddaf yn hysbysebu'n fuan am bum aelod newydd i lenwi'r bylchau yn y gynrychiolaeth o ogledd Cymru, gorllewin Cymru, Powys a'r Cymoedd.

**Cynllun Bwrsariaeth Breswyl**

**C10 Christine Humphreys:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i gyflwyno cynllun bwrsariaeth breswyl yng Nghymru? (OAQ5140)

**Tom Middlehurst:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun bwrsariaeth breswyl yng Nghymru.

Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn gyfrifol am y system gyfredol i gefnogi myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Mae'n darparu cyllid i fyfyrwyr i'w galluogi i astudio ar sail breswyl mewn prifysgol nad yw gerllaw eu preswylfan arferol heb yr angen am gynllun bwrsariaeth breswyl penodol.

**Cynlluniau i Annog Ceisiadau Addysg Uwch**

**C11 Jenny Randerson:** A oes gan Tom Middlehurst gynlluniau i sefydlu mentrau mewn ardaloedd lle mae canran fechan o bobl ifanc yn gwneud cais am addysg uwch er mwyn annog mwy o bobl i wneud cais? (OAQ4976)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo'n llwyr i ehangu'r mynediad at addysg uwch a phellach i bawb sydd â'r gallu i elwa o hynny. Tanlinellwyd hyn yn y Papur Gwyrdd ar ddysgu gydol oes, 'Rhywbeth i Bawb yw Dysgu', a gyhoeddwyd yn Ebrill 1998, ac a gyhoeddwyd hefyd yn ddiweddar yng nghynllun gweithredu'r Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru. Yr ydym wedi ymrwymo i ddileu'r rhwystrau rhag addysg a hyfforddiant ôl-16 pa le bynnag y mae hynny'n bosibl a sicrhau bod cyfleoedd addysg uwch ar gael yn fwy eang, yn enwedig i'r grwpiau hynny o bobl nad ydynt yn draddodiadol wedi mynd i brifysgol.

Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan gynghorau cyllido'r DU o dan y teitl 'Performance Indicators in Higher Education 1996-97, 1997-98' yn dangos bod Cymru wedi perfformio'n neilltuol o dda o ran annog cyfranogiad o blith grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar lefel addysg uwch, o'u cymharu â'r boblogaeth drwyddi draw. Mae gan sefydliadau Cymru gyfran uwch na'r DU yn ei chyfanrwydd o israddedigion amser llawn, ifanc ac aeddfed, sydd yn cael eu derbyn am y tro cyntaf, o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth deg. Perfformiodd sector AU Cymru yn well na'r cyfartaledd i'r DU yn nhermau canrannau'r myfyrwyr newydd ifanc amser llawn o ysgolion a cholegau gwladol, o grwpiau cymdeithasol gweithwyr llaw sgilgar, lled-sgilgar a di-sgil ac o ardaloedd sydd â chyfranogiad 'isel'. Denodd sefydliadau Cymru fwy o fyfyrwyr newydd aeddfed, amser llawn hefyd o ardaloedd sydd â chyfranogiad isel ac heb unrhyw gymhwyster addysg uwch blaenorol nag unrhyw wlad arall yn y DU.

Bu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru â rhan flaenllaw mewn sefydlu rhaglenni a chynlluniau a fwriadwyd i gefnogi sefydliadau wrth iddynt ymateb i anghenion cefnogaeth addysgol y myfyrwyr anhraddodiadol hyn. Fodd bynnag, ni ellir bod yn hunanfodlon ac mae ehangu mynediad i addysg uwch yn parhau'n flaenoriaeth gan y Cynulliad i'r sector addysg uwch yng Nghymru dros y blynyddoedd i ddod. Gofynnwyd i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch barhau i weithio gyda sefydliadau i dargedu ardaloedd er mwyn hyrwyddo cyfranogiad mewn addysg uwch, i weithio'n ddyfal i recriwtio myfyrwyr o

grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol ac i sicrhau bod anghenion bugeiliol y myfyrwyr hyn yn cael eu diwallu. Bydd canlyniadau'r ymdrechion hyn i'w gweld dros y blynyddoedd i ddod.

### Cysoni Tâl rhwng y Sectorau Addysg Bellach ac Ysgolion

**C12 Jane Davidson:** Pa drafodaethau y mae Tom Middlehurst wedi'u cynnal â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth mewn perthynas â chysoni tâl ac amodau yn y sector addysg bellach a sector yr ysgolion? (OAQ5115) [R]

**Tom Middlehurst:** Dim. Mater i'r sefydliadau eu hunain yw tâl ac amodau staff yn y sector addysg bellach.

### Cymhellion ar gyfer Athrawon Ysgolion Cynradd o dan Hyfforddiant

**C13 Alun Cairns:** Pa gymhellion sydd yn cael eu cynnig i bobl sydd yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgolion cynradd yng Nghymru? (OAQ5120)

**Tom Middlehurst:** Cyhoeddodd Rosemary Butler ar 12 Ebrill fanylion y grantiau hyfforddi a dysgu sydd i'w cyflwyno yng Nghymru o fis Medi 2000 fel rhan o ystod o fesurau i recriwtio mwy o athrawon. Mae'r grantiau hyn yn elfennau ar y cyd sydd â'r nod o ddenu mwy o raddedigion, a gwell graddedigion, i mewn i hyfforddiant uwchradd cychwynnol ar gyfer mynd yn athro, ac ymlaen wedyn i ddysgu.

Nid yw'r grantiau hyn ar gael ar gyfer graddedigion sydd yn hyfforddi i fod yn athrawon cynradd am eu bod yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae'r angen mwyaf. Caiff y cynllun ei adolygu yn 2001-02 i fesur ei effeithiolrwydd a byddwn yn ystyried bryd hynny a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

### Grŵp Ymgynghorol Cymru y Brifysgol i Ddiwydiant

**C14 Jocelyn Davies:** A wnaiff Tom Middlehurst bennu dyddiad pan fydd modd i Grwp Ymgynghorol Cymru y Brifysgol i Ddiwydiant adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ5123)

**Tom Middlehurst:** Sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol Cymru y Brifysgol i Ddiwydiant gan PiD Cyf i sicrhau bod eu cynlluniau yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynulliad ac anghenion penodol Cymru. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynrychioli trawstoriad o fuddiannau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, Fforwm, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru) a Chyngres yr Undebau Llafur, Cynghorau Hyfforddiant a Menter, ACCAC a BBC Cymru. Mae'r Cynulliad yntau wedi'i gynrychioli ar y grŵp gan uwch swyddog o'r Adran Hyfforddiant ac Addysg.

Er nad oes gennyf unrhyw hawl i fynnu bod y Grŵp yn rhoi adroddiad i'r Cynulliad, byddaf yn eu gwahodd i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 maes o law. Deallaf hefyd fod PiD Cyf wedi cynnig rhoi cyflwyniad gerbron y Pwyllgor ar ddatblygiadau PiD.

### Y Fargen Newydd ar gyfer Cerddorion

**C15 Lorraine Barrett:** A wnaiff Tom Middlehurst wneud datganiad i ddweud a yw wedi cynnal trafodaethau â'r Adran Addysg a Chyflogaeth ar ddatblygiad y Fargen Newydd ar gyfer Cerddorion yng Nghymru? (OAQ5116)

**Tom Middlehurst:** Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Gwasanaeth Cyflogi, sydd yn gyfrifol am y Fargen Newydd. Yr wyf yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd.

Tan ddiwedd Mawrth 2000, yr oedd 270 o gyfranogwyr ar y Fargen Newydd yng Nghymru wedi'u cyfeirio at ymgynghorwyr o'r diwydiant cerddoriaeth ac, yn dilyn cyfweliadau, cyfeiriwyd 140 at ymgynghorwyr cerddoriaeth dysgu agored. Aeth trigain a thri o'r rhain ymlaen ymhellach. Erbyn hyn mae saith o'r cyfranogwyr yn hunangyflogedig yn y diwydiant cerddoriaeth, ond yn parhau i dderbyn cyngor a chyfarwyddyd o dan y Fargen Newydd. Bydd chwe act a gefnogwyd drwy'r Fargen Newydd yn ymddangos yng Nghlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd dros Ŵyl Banc y Sulgwyn.

Byddaf yn cwrdd â Tessa Jowell, y Gweinidog O Fudd-dâl i Waith, yn fuan yn y cyfarfod chwemisol cyntaf rhwng cynrychiolwyr llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i drafod hynt y Fargen Newydd.

**Cyllid ar gyfer y Brifysgol i Ddiwydiant**

**C16 Elin Jones:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar sut y bydd menter y Brifysgol i Ddiwydiant yn cael ei hariannu yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ5121)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhyddhau £500,000 ychwanegol i Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru er mwyn cyllido darpariaeth ar gyfer y dysgwyr ychwanegol a ddisgwylir fydd yn deillio o fenter y PiD yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, mae'r Cyngor Cyllido wedi neilltuo tua £500,000 o grant arferol y Cyngor oddi wrth y Cynulliad ar gyfer dysgwyr PiD.

**Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru**

**C17 Owen John Thomas:** Faint o arian fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei ryddhau ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru er mwyn cyllido darpariaeth y Brifysgol ar gyfer dysgwyr yn y flwyddyn academaidd nesaf? (OAQ5130)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhyddhau £500,000 ychwanegol i Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru er mwyn cyllido darpariaeth ar gyfer y dysgwyr ychwanegol a ddisgwylir fydd yn deillio o fenter y PiD yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, mae'r Cyngor Cyllido wedi neilltuo tua £500,000 o grant arferol y Cyngor oddi wrth y Cynulliad ar gyfer dysgwyr PiD.

**Myfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion yng Nghymru**

**C18 Brian Hancock:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i gynyddu nifer y myfyrwyr sydd yn dilyn cyrsiau'r dystysgrif addysg i raddedigion mewn sefydliadau Cymreig? (OAQ5125)

**Tom Middlehurst:** Cyhoeddodd Rosemary Butler ar 12 Ebrill fanylion y grantiau hyfforddi a dysgu sydd i'w cyflwyno yng Nghymru o fis Medi 2000 fel rhan o ystod o fesurau i recriwtio mwy o athrawon. Mae'r grantiau hyn yn elfennau ar y cyd sydd â'r nod o ddenu mwy o raddedigion, a gwell graddedigion, i mewn i hyfforddiant uwchradd cychwynnol ar gyfer mynd yn athro, ac ymlaen wedyn i ddysgu.

**Gweithgareddau Craidd Addysg Bellach ac Uwch**

**C19 Richard Edwards:** A wnaiff Tom Middlehurst wneud datganiad ar y cyswllt rhwng yr adnoddau sydd yn cael eu rhoi i weithgareddau addysgol craidd mewn colegau addysg bellach ac addysg uwch ac ansawdd y ddarpariaeth, cadw myfyrwyr a mynediad i addysg yn y sectorau hyn? (OAQ5142)

**Tom Middlehurst:** Mewn addysg bellach ac addysg uwch, dyrennir cyllid ar sail unedau safonol o adnoddau. Cyllidir sefydliadau ar yr un lefel am ddarpariaeth gyfatebol. Po uchaf fo'r uned adnoddau, mwyaf oll o gyllid fydd ar gael i sefydliadau, ond nid yw'n bosibl sefydlu cyswllt uniongyrchol rhwng y

ffactorau yn y ffordd a awgrymir yn y cwestiwn. Gallai fod yn gamarweiniol awgrymu bod yna gyswllt uniongyrchol. Bydd ansawdd y ddarpariaeth, cadw myfyrwyr a mynediad i addysg yn dibynnu nid yn unig ar yr uned adnoddau ond hefyd ar y modd y rheolir y sefydliad a'r amodau cymdeithasol-economaidd yn nalgylch sefydliad.

**Rhannu Tocynnau ar gyfer Digwyddiadau Chwaraeon yng Nghymru**

**C20 Nicholas Bourne:** Beth mae Tom Middlehurst wedi ei wneud, a beth fydd yn ei wneud yn y dyfodol i sicrhau fod tocynnau ar gyfer digwyddiadau o bwys ym myd chwaraeon yn cael eu rhannu yn decach? (OAQ5145)

**Tom Middlehurst:** Rhagdybiaf eich bod yn cyfeirio at y cyhoeddusrwydd diweddar ynglŷn â dosbarthiad y tocynnau ar gyfer y gêm bêl-droed ryngwladol rhwng Cymru a Brasil. Mae fy swyddogion wedi siarad â Chymdeithas Pêl-droed Cymru ar fy rhan. Prin fu'r problemau yn y gorffennol gan fod y stadia yn gallu dygymod â niferoedd y torfeydd, a gallai cefnogwyr a oedd heb docynnau dalu ar ddiwrnod y gêm. Anfonwyd ffurflenni at bob cefnogwr sydd wedi'i gofrestru ar gronfa ddata Cymdeithas Pêl-droed Cymru, pa le bynnag y maent yn byw, i'w galluogi i wneud cais am docynnau ar gyfer gêm Brasil, a neilltuwyd tocynnau ar eu cyfer fel blaenoriaeth. Unwaith y rhyddhawyd y tocynnau i'r cyhoedd, gallai pobl ymgeisio amdanynt dros y ffôn neu drwy alw mewn swyddfeydd tocynnau yng Nghaerdydd. O edrych yn ôl, mae'r Gymdeithas Pêl-droed yn cydnabod, am fod y galw yn fwy na'r cyflenwad, fod y penderfyniad mai dim ond yng Nghaerdydd y byddai yna unedau yn gwerthu tocynnau yn uniongyrchol wedi rhoi'r cyhoedd o'r tu allan i dde-ddwyrain Cymru o dan anfantais. Mae'r Gymdeithas Pêl-droed wedi fy sicrhau y caiff y broblem hon ei chywiro i'r dyfodol drwy annog mwy o bobl i gofrestru ar y gronfa ddata; a thrwy ddosbarthu tocynnau o unedau ledled Cymru.

**Canolfannau Cyswllt Dysgu**

**C21 Jocelyn Davies:** A oes gan Tom Middlehurst unrhyw gynlluniau i gynyddu nifer y canolfannau cyswllt dysgu yng Nghymru fel rhan o fenter y Brifysgol i Ddiwydiant? (OAQ5126)

**Tom Middlehurst:** Drwy bedair Both Canolfan Dysgu ranbarthol, mae PiD Cyf yn bwriadu agor 50 canolfan ddysgu Cyswllt Dysgu-Learn Direct ar draws Cymru erbyn mis Mawrth 2001. Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant Strategaeth Gwybodaeth Addysg Technoleg Cyfrifiaduron, sydd yn cynnwys datblygu Canolfannau Dysgu TGCh mewn hyd at 1,000 o lyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau ieuenctid, colegau, cyfleusterau maes, ysgolion gwledig a chanolfannau eraill. Gall y canolfannau dysgu hyn wneud cais i Fothau Canolfannau Dysgu y PiD am fod yn ganolfannau dysgu Cyswllt Dysgu-Learn Direct. Yn ychwanegol at hyn, bydd y Gronfa Cyfleoedd newydd yn dosbarthu £13 miliwn yng Nghymru erbyn 2002 i gefnogi prosiectau sydd yn cynnwys datblygu dysgu TGCh i oedolion mewn canolfannau dysgu.

**Mynediad am Ddim i Amgueddfeydd**

**C22 Jonathan Morgan:** A yw Tom Middlehurst yn cymryd camau i sicrhau bod mynediad am ddim i amgueddfeydd ar draws Cymru? (OAQ5136)

**Tom Middlehurst:** Mae Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu cyllid ychwanegol i alluogi Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i gynnig mynediad am ddim i blant, pobl dros 60 oed a phobl ddi-waith. O'r 90 amgueddfa nad ydynt yn genedlaethol sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor Amgueddfeydd Cymru, ni chodir tâl mynediad gan 24. Mae'r 66 amgueddfa arall yn pennu eu polisïau tâl eu hunain.

**Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru**

**C23 Lorraine Barrett:** A wnaiff Tom Middlehurst wneud datganiad ar y gefnogaeth sydd yn cael ei chynnig i'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru er budd ei waith o geisio codi uchelgais addysgol ac ymladd yn erbyn allgáu ymysg pobl ifanc? (OAQ5114)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru o safbwynt y mathau hyn o weithgaredd drwy ddulliau amrywiol. Mae Cynllun Mynediad yr Ifanc, Cronfa Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y cynllun Pobl mewn Cymunedau, a gwaith peilot Cyngor Ieuenctid Cymru gydag ysgolion uwchradd yn rhai enghreifftiau.

Ac edrych ymlaen, mae'r datganiad a wnaethpwyd i'r Cynulliad ar 18 Ionawr yn amlinellu sut mae polisi ieuenctid yn cael ei dywys yn ei flaen yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Uned Bolisi roi cyngor ar yr hyn y mae angen ei wneud i ddarparu system gefnogi integredig ar gyfer pobl ifanc.

Bydd adroddiad yr Uned Bolisi yn ymdrin â rôl y Gwasanaeth Ieuenctid statudol a chyrff eraill o ran cefnogi'r agenda dysgu gydol oes, a bydd yn gwireddu'r addewid a roddwyd ym Mhapur Gwyrdd 1998, 'Rhywbeth i Bawb yw Dysgu'.

Dylai'r adroddiad fod ar gael yn gynnar yn yr hydref a chaiff ei drafod gan y Cynulliad.

**Myfyrwyr Addysg Uwch**

**C24 Brian Hancock:** Pa gamau mae Tom Middlehurst yn eu cymryd i sicrhau nad yw myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o dan anfantais ariannol o'u cymharu â myfyrwyr yn Lloegr? (OAQ5124)

**Tom Middlehurst:** Nid yw myfyrwyr addysg uwch sydd yn mynychu sefydliadau yng Nghymru o dan anfantais ariannol o'u cymharu â myfyrwyr yn Lloegr.

Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn gyfrifol am bolisi o safbwynt ffioedd hyfforddi a chefnogaeth i fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r swyddogaeth wedi'i datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Asesir myfyrwyr o Gymru a Lloegr ar yr un sail yn union i ganfod eu hawl i'r ystod llawn o fesurau sydd ar gael i gefnogi myfyrwyr, heb ystyried ym mhle yn y DU y maent yn mynd i brifysgol.

Yn ychwanegol at hynny, mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn rhyddhau cyllid mynediad i bob sefydliad addysg uwch a gyllidir yn gyhoeddus yn Lloegr a'r Cynulliad yn rhyddhau cyllid i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae pob myfyriwr o'r DU sydd yn mynychu'r sefydliadau hynny yn gymwys i ymgeisio am gymorth ariannol o'r cronfeydd hyn, heb ystyried ym mha un o wledydd y DU y maent yn byw.

**Ymchwil i Rwystrau i Gyfranogiad o Addysg Uwch**

**C25 Geraint Davies:** Pa ymchwil y mae Tom Middlehurst wedi ei chomisiynu i'r hyn sydd, o bosibl, yn rhwystro pobl cymoedd y De rhag cyfranogi o addysg uwch? (OAQ5134)

**Tom Middlehurst:** Nid wyf wedi comisiynu unrhyw ymchwil o'r fath. Fodd bynnag, drwy gynlluniau cyllido wedi'u targedu, mae'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch wedi bod yn annog sefydliadau i ehangu eu sylfaen myfyrwyr a denu myfyrwyr o grwpiau cymdeithasol nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch yn draddodiadol. Dengys dangosyddion perfformiad a gyhoeddwyd am y DU gyfan yn ddiweddar fod sefydliadau Cymru yn gwneud yn neilltuol o dda o ran denu myfyrwyr o gefndiroedd sydd â diffyg mantais ac o ardaloedd lle nad oes traddodiad o fynd i brifysgol.

Nid oes lle i fod yn hunanfodlon, ac mae ehangu mynediad i addysg uwch i bawb sydd â'r gallu i elwa o hynny yn parhau'n flaenoriaeth gan y Cynulliad i'r sector addysg uwch yng Nghymru dros y

blynyddoedd i ddod. Gofynnwyd i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch barhau i weithio gyda sefydliadau i dargedu ardaloedd er mwyn hybu cyfranogiad mewn addysg uwch, gweithio'n ddiwyd i recriwtio myfyrwyr o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'u plith a sicrhau bod anghenion bugeiliol y myfyrwyr hyn yn cael eu diwallu. Ond nid dim ond mater i'r sector addysg uwch yw hyn. Yn y dyfodol disgwyliaf weld effaith y cynlluniau a sefydlwyd er 1997 drwy BEST fod Teaching and Learning, BEST for Lifelong Learning a rhaglen y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i arwain at frwdfrydedd a mwy o gyfranogiad mewn addysg uwch ar draws Cymru. Bydd canlyniadau'r ymdrechion hyn i'w gweld yn y blynyddoedd i ddod.

**Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru**

**C26 David Davies:** Beth fydd swyddogaeth paneli ymgynghorol rhanbarthol Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru? (OAQ5139)

**Tom Middlehurst:** Cyflwynais ganllawiau drafft ar rôl pwyllgorau rhanbarthol Cyngor Cymru i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ar 10 Mai, gan wahodd sylwadau. Byddaf yn cyflwyno'r un papur i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd am ei sylwadau ar 18 Mai. Mae copi o'r canllawiau drafft hyn ar gael ar safle'r Cynulliad ar y we. Caiff y canllawiau eu newid yng ngoleuni'r sylwadau a dderbynnir gan y Pwyllgorau hyn.

**Gwerthiant Tocynnau ar gyfer y Gêm Ryngwladol rhwng Cymru a Brasil**

**C27 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae Tom Middlehurst wedi eu cael â Chymdeithas Pêl-droed Cymru ynghylch gwerthu'r tocynnau ar gyfer y gêm ryngwladol rhwng Cymru a Brasil? (OAQ5128)

**Tom Middlehurst:** Mae fy swyddogion wedi siarad â Chymdeithas Pêl-droed Cymru ar fy rhan. Prin fu'r problemau yn y gorffennol gan fod y stadia yn gallu dygymod â niferoedd y torfeydd, a gallai cefnogwyr a oedd heb docynnau dalu ar ddiwrnod y gêm. Anfonwyd ffurflenni at bob cefnogwr sydd wedi'i gofrestru ar gronfa ddata Cymdeithas Pêl-droed Cymru, pa le bynnag y maent yn byw, i'w galluogi i wneud cais am docynnau ar gyfer gêm Brasil, a neilltuwyd tocynnau ar eu cyfer fel blaenoriaeth. Unwaith y rhyddhawyd y tocynnau i'r cyhoedd, gallai pobl ymgeisio amdanynt dros y ffôn neu drwy alw mewn swyddfeydd tocynnau yng Nghaerdydd. O edrych yn ôl, mae'r Gymdeithas Pêl-droed yn cydnabod, am fod y galw yn fwy na'r cyflenwad, fod y penderfyniad mai dim ond yng Nghaerdydd y byddai yna unedau yn gwerthu tocynnau yn uniongyrchol wedi rhoi'r cyhoedd o'r tu allan i dde-ddwyrain Cymru o dan anfantais. Mae'r Gymdeithas Pêl-droed wedi fy sicrhau y caiff y broblem hon ei chywiro yn y dyfodol drwy annog mwy o bobl i gofrestru ar y gronfa ddata; a thrwy ddosbarthu tocynnau o unedau ledled Cymru.

**Jazz yng Nghymru**

**C28 Kirsty Williams:** A oes strategaeth yn ei lle i hyrwyddo Jazz yng Nghymru? (OAQ5135)

**Tom Middlehurst:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Jazz Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer jazz.

Fel rhan o'i gefnogaeth i ystod eang o arddulliau cerddorol, mae Cyngor y Celfyddydau wedi dyrannu £77,000 tuag at hyrwyddo jazz yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Mae grantiau loteri gwerth £380,000 i gyd wedi eu dyfarnu i fandiau jazz, cymdeithasau a gwyliau jazz yng Nghymru ers sefydlu'r Loteri.

**Sefydliad Joseph Rowntree**

**C29 Mick Bates:** Pa ymateb mae Tom Middlehurst wedi ei wneud i adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree ‘Y Celfyddydau ac Adfywio’? (OAQ4988)

**Tom Middlehurst:** Mae gan Sefydliad Joseph Rowntree hanes hir o gefnogaeth ymchwil sydd â’r nod o adfywio cymunedau. Croesawaf eu hadroddiad a bwriadaf roi ystyriaeth fanwl iddo.

Yr wyf yn gwbl argyhoeddedig y gall y celfyddydau wneud cyfraniad pwysig tuag at adfywio cymunedau. Am y rheswm hwn, mae’r Cynulliad wedi dyrannu swm ychwanegol o £100,000 i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2000-01, sydd i’w ddefnyddio’n unswydd i gefnogi’r celfyddydau yn y gymuned a brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol.

Mae fy swyddogion wedi anfon copi o Adroddiad Rowntree at Gyngor y Celfyddydau am ei sylwadau, a chafodd ei ystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 12 Mai.

Bydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, fel rhan o’u harolwg polisi ym maes y celfyddydau a diwylliant, yn ystyried sut mae cael y celfyddydau i effeithio fwyaf ar adfywio. Byddant yn ystyried Adroddiad Rowntree fel rhan o’u tystiolaeth. Mae’r Pwyllgor i fod i gyhoeddi ei adroddiad fis Medi.

**Cyllid ar gyfer Theatrau**

**C30 Michael German:** Pa ganran o’r bobl sydd yn cloriannu’r ceisiadau i Gyngor Celfyddydau Cymru am gyllid refeniw ar gyfer theatrau sydd yn dod o Ddwyrain De Cymru? (OAQ5131

**Tom Middlehurst:** Mae pob penderfyniad ar grantiau refeniw i gleientiaid sydd yn cael eu cyllido ar sail reolaidd, gan gynnwys theatrau, yn cael ei wneud yng nghyfarfodydd llawn Cyngor Celfyddydau Cymru.

Nid oes yr un o aelodau presennol y Cyngor yn byw yn Nwyrain De Cymru. Yr wyf yn benderfynol o wella’r cydbwysedd daearyddol ar y Cyngor, a dyna pam y byddaf yn hysbysebu’n fuan am bum aelod newydd i lenwi’r bylchau yn y gynrychiolaeth o ogledd Cymru, gorllewin Cymru, Powys a’r Cymoedd. Ni fydd byth yn bosibl rhoi cynrychiolaeth i ardal pob etholaeth o’r Cynulliad ond yn sicr mae angen i ni gael gwell cydbwysedd daearyddol nag sydd gennym ar hyn o bryd.